

TUDALEN 23

Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **Nos Lun 19 Gorffennaf 2021** am 6.00 pm.

YN BRESENNOL:- Cynghorwyr George Turner (Cadeirydd), John Martin, Enid Parry, Gwynant Roberts, Gareth Roberts.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Gwynfor Owen (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion)

64/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Luke Tugwell.

65/21 DATGAN DIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Gareth Roberts ddiddordeb yng Nghais Cynllunio C21/0648/11/LL fel aelod lleol sydd hefyd yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio Gwynedd. Arhosodd ar gyfer yr eitem ond ni chymerodd ran o gwbl yn y drafodaeth.

66/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

67/21 CEISIADAU CYNLLUNIO

C21/0648/11/LL- Dymchwel adeilad swyddfeydd presennol a chodi 39 o fflatiau byw preswyl ar gyfer oedolion hŷn 55+ oed ynghyd â gwaith cysylltiedig. (Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, LL57 2BX. (Ward: Dewi)

[Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Roedd gan un aelod bryder am y lleoliad, credai y gallai gael ei effeithio gan beipiau dŵr diffygiol oddi tano. Teimlai hefyd fod y lleoliad yn anaddas i bobl hŷn gan ei fod yn serth. Fodd bynnag, roedd yr aelodau eraill yn fwy cefnogol, yn teimlo fod hwn yn lleoliad ardderchog gan dynnu sylw at y ffaith nad yw'r fflatiau wedi'u bwriadu ar gyfer pobl hŷn eiddil ac anabl.

Mynegodd aelod arall bryder am uchder yr adeilad; hefyd yr effaith y gallai gael ar yr iaith Gymraeg. Dywedwyd y bydai'd Asesiad o'r Effaith ar yr iaith wedi cael ei wneud, yn ôl yr arfer. Y bwriad oedd mai pobl leol fydda'n rhentu'r fflatiau.

Dim gwrthwynebiad

C21/0655/11/DT – Cais ar gyfer codi estyniad un llawr to un-codiad i ochr yr eiddo (4 Gwern Las, Maesgeirchen, Bangor, Gwynedd, LL57 1NF). (Ward: Marchog)

[Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Dim gwrthwynebiad

C21/0223/11/HD – Dymchwel modurdai segur. (Garej Ffordd Coedmawr, Bangor, LL57 4TB). (Ward: Dewi)

[Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Adroddwyd fod y garejys mewn cyflwr gwael iawn a heb gael eu defnyddio fel garejys ers blynyddoedd.

Dim gwrthwynebiad

C21/0643/11/HD – Dymchwel tŷ segur. (Parc Carafannau Woodside, Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2HQ). (Ward: Menai)

[Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

TUDALEN 24

Roedd rhai aelodau wedi'u synnu gan y cais hwn a ddim yn gweld rheswm dros ddymchwel tŷ oherwydd ei fod yn wag. Fodd bynnag, dywedwyd fod y tŷ mewn cyflwr gwael iawn ac y byddai ei ddymchwel yn gwella'r mynediad i'r maes carafannau.

Dim gwrthwynebiad.

68/21 MATERION PRIFFYRDD

Dim.

69/21 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 6.25 pm

Cyfarwyddwr y Ddinas – Iwan Williams – City Director